OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 1080 (Cy.127)

ANIFEILIAID, CYMRU
IECHYD ANIFEILIAID

Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Cymru) (Mewnforio Adar Caeth) 2007

Wedi'u gwneud - -	*28 Mawrth 2007*
Yn dod i rym - -	*1 Ebrill 2007*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi'i ddynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Erwropeaidd 1972(**2**) o ran polisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd.

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan yr adran honno:

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Cymru) (Mewnforio Adar Caeth) 2007.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 1 Ebrill 2007.

2. Yn rheoliad 16(4) o Reoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Cymru) 2006(**3**), yn lle "1 April 2007" rhodder "1 July 2007".

3. Dirymir rheoliad 2(3) o Reoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Cymru) (Diwygio) 2006(**4**) .

4. Dirymir Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2006(**5**).

(**1**) O.S. 2005/2766, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2006/3329.
(**2**) 1972 p. 68.
(**3**) O.S. 2006/1536 (Cy. 153), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2006/2128 (Cy. 198) ac O.S. 2006/3452 (Cy. 313).
(**4**) O.S. 2006/2128 (Cy. 198).
(**5**) O.S. 2006/3452 (Cy. 313).